HYSBYSIAD AM Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

GWEINIDOGION CYMRU

CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (YR A494) DISODLI PONT DROS AFON DYFRDWY (GWELLIANT CYFNEWIDFA QUEENSFERRY I GARDEN CITY)

ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL HYSBYSIAD AM DDATGANIAD AMGYLCHEDDOL YN UNOL AG ADRAN 105B O DDEDDF PRIFFYRDD 1980 (FEL Y'I DIWYGIWYD)

ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER SAFLEOEDD EWROPEAIDD HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I HYSBYSU ASESIAD PRIODOL YN UNOL Â RHEOLIAD 63 O REOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2017 (FEL Y'I DIWYGIWYD)

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y Datganiad Amgylcheddol (DA) a enwir uchod, a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (DHAP), a'r holl sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd mewn ymateb i gyhoeddi'r dogfennau hyn, ac wedi penderfynu bwrw ymlaen â chynllun yr A494 Disodli Pont dros Afon Dyfrdwy.

Mae copïau o'r DA, y DHAP, Llythyr Penderfyniad Gweinidogion Cymru gan gynnwys unrhyw amodau a'r rhesymau a'r ystyriaethau sy'n sail i'r penderfyniad wedi eu hadneuo yn y mangreoedd a ganlyn lle y maent ar gael i'w gweld yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol ar gyfer busnes o 13 Tachwedd 2026 i 31 Rhagfyr 2026.

- Swyddfa Llywodraeth Cymru Cyffordd Llandudno, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ; a

- Llyfrgell Glannau Dyfrdwy, Chester Road West, Queensferry, CH5 1SA

Mae copi papur o'r set gyflawn o'r DA, gan gynnwys ei Grynodeb Annhechnegol (CA), ar gael gan Lywodraeth Cymru o'r cyfeiriad isod am £871.00 a chopi papur o'r DHAP am £33.00.

Caiff copïau electronig o'r DA gan gynnwys ei CA, a'r DHAP a dogfennau ategol ynghyd â'r hysbysiad hwn eu cyhoeddi ar-lein yn https://llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy.

NOTICE OF THE ENVIRONMENTAL STATEMENT

THE WELSH MINISTERS

THE DOLGELLAU TO SOUTH OF BIRKENHEAD TRUNK ROAD (A494) RIVER DEE BRIDGE REPLACEMENT (QUEENSFERRY INTERCHANGE TO GARDEN CITY IMPROVEMENT)

ENVIRONMENTAL IMPACT ASSESSMENT NOTICE OF ENVIRONMENTAL STATEMENT IN ACCORDANCE WITH SECTION 105 B OF THE HIGHWAYS ACT 1980 (AS AMENDED)

ASSESSMENT OF IMPLICATIONS FOR EUROPEAN SITES NOTICE OF STATEMENT TO INFORM AN APPROPRIATE ASSESSMENT IN ACCORDANCE WITH REGULATION 63 OF THE CONSERVATION OF HABITATS AND SPECIES REGULATIONS 2017 (AS AMENDED)

The Welsh Ministers have considered the above-named Environmental Statement (ES), and the Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA), and all written comments made in response to the publication of these documents and have decided to proceed with the A494 River Dee Bridge Replacement scheme.

Copies of the ES, SIAA, the Welsh Ministers Decision Letter including any conditions and the reasons and considerations behind the decision, have been deposited at the following premises where they are open to inspection free of charge at all reasonable business hours from 13 November 2026 to 31 December 2026.

- Welsh Government Offices, Sarn Mynach, Llandudno Junction, LL31 9RZ; and

- Deeside Library, Chester Road West, Queensferry, CH5 1SA

A paper copy of the ES, including its Non-Technical Summary (NTS), may be obtained from the Welsh Government at the address given below at a cost of £871.00 and a paper copy of the SIAA at a cost of £33.00.

Electronic copies of the ES including its NTS, and the SIAA and supporting documents together with this notice are published online at https//:gov.wales/a494-river-dee-bridge.

OS YW UNRHYW BERSON A DRAMGWYDDIR gan y penderfyniad i fwrw ymlaen â Chynllun yr A494 Disodli Pont dros Afon Dyfrdwy y mae Datganiad Amgylcheddol wedi ei wneud ar ei gyfer yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y penderfyniad hwnnw ar y sail:

- nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu
- na chydymffurfiwyd â Rhan VA o'r Ddeddf honno mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw

caiff, o fewn 6 wythnos o'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad hwn gyntaf, wneud cais i'r perwyl i'r Uchel Lys.

Os gwneir cais o'r fath, caiff y Llys atal neu ddiddymu'r penderfyniad hwnnw.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect, y DA, y DHAP, y penderfyniad, neu'r hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu oddi wrth Peris Jones, Seilwaith, Trafnidiaeth, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

NICCI HUNTER
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru
Ar ran Gweinidogion Cymru

IF ANY PERSON AGGRIEVED by the decision to proceed with the A494 River Dee Bridge Replacement Scheme for which an Environmental Statement has been made desires to question the validity of that decision on the ground that:

- it is not within the powers of the Highways Act 1980, or
- any requirement of Part VA of that Act has not been complied with in relation to that decision

they may, within 6 weeks from the date on which this notice is first published, make application for the purpose to the High Court.

On such an application, the Court may suspend or quash that decision.

Further information about the project, the ES, SIAA the decision, or this notice can be obtained from Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or from Peris Jones, Infrastructure, Transport, Welsh Government Offices, Sarn Mynach, Llandudno Junction, Conwy, LL31 9RZ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

NICCI HUNTER
Head of Governance and Assurance
Welsh Government
On behalf of the Welsh Ministers